# COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
# MINUTES OF ANNUAL GENERAL MEETING
# CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR COMMUNITY COUNCIL
# NOS IAU / THURSDAY 19/05/2022
# LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN HALL LIBRARY @ 7PM

1. **Croeso'r Cadeirydd –** Chairperson's Welcome
   **Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen, holl yn bresennol i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2022.**
   Chairman Cllr Gareth Owen, welcomed all present, to the Annual General Meeting.
2. **Ymrwymo i'r Cod Ymddygiad a'r Datganiad Derbyn Swydd**: Subscribing to the Code of Conduct and the Declaration of Acceptance of Office.
   Gwnaeth Roland Bago, Mel Briant, Ieuan Davies, Angharad Jones; Richard Jones, Gareth Owen, Alun Price-Jones, Doug Rowbotham, & Elgan Williams ymrwymo i barchu'r Cod Ymddygiad ac ymwneud â'r Datganiad Derbyn Swydd.
   Roland Bago, Mel Briant, Ieuan Davies, Angharad Jones; Richard Jones, Gareth Owen, Alun Price-Jones, Doug Rowbotham & Elgan Williams subscribed to the Code of Conduct and the Declaration of the Acceptance of Office.
3. **Yn Bresennol –** Present
   Cyngh./Cllr Roland Bago, Cyngh./Cllr Mel Briant, Cyngh./Cllr Ieuan Davies, Cyngh./Cllr Angharad Jones; Cyngh./Cllr Richard Jones, Cyngh./Cllr Gareth Cyngh./Cllr Owen, Cyngh./Cllr Alun Price-Jones, Cyngh./Cllr Doug Rowbotham, Cyngh./Cllr Elgan Williams.
   Cyngh. Sirol County Cllr Ifan Lloyd-Davies.
   Clare Hughes; Mair Jones.
   Eleri Thomas (Clerc)
4. **Ymddiheuriadau – Apologies**
   **Non Jones. Bydd trefniadau ar waith i sicrhau bod Non Jones yn ymrwymo i'r Cod Ymddygiad a'r Datganiad Derbyn Swydd cyn cychwyn ar ei ddyletswyddau fel Cynghorydd Cymuned.**
   Arrangements will be in place for Non Jones to subscribe to the Code of Conduct and the Declaration of Acceptance of Office before he assumes his role as Community Cllr.
5. **Datgan Diddordeb – Declaration of Interest**
   **Dim wedi'i ddatgan.** None declared.
6. **Darllen Cofodion CCB 2021- Reading of the Minutes of the 2021 AGM**
   **Darllenodd y Clerc Cofnodion CCB 2021. Cynigiwyd (y Cyngh. Alun Price-Jones); Eiliwyd (y Cyng. Gareth Owen) a chytunwyd yn unfrydol eu bod yn gywir. Arwyddwyd gan y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen.**
   The Clerk read the Minutes of the AGM 2021. It was proposed (Cllr Alun Price-Jones), seconded (Cllr Gareth Owen) and unanimously agreed that they were a correct record. They were signed by the Chair Cllr Gareth Owen.
7. **ETHOL CADEIRYDD AM Y DDWY FLYNEDD NESAF: Election of Chairperson for the next 2 years.**

**Cynigiodd (Cyngh. Doug Rowbotham), Eiliwyd (Cyngh. Alun Price-Jones) a phenderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Gyngh. Angharad Jones yn Gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf.**

It was proposed (Cllr Doug Rowbotham), Seconded (Cllr Alun Price-Jones) and unanimously agreed that Cllr Angharad Jones would be Chairperson for the next two years.

8. **ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y DDWY FLYNEDD NESAF – ELECTION OF VICE-CHAIRPERSON FOR THE NEXT TWO YEARS**

   **Cynigiwyd (y Gyngh. Angharad Jones), eiliwyd (y Cyngh. Richard Jones) a phenderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Cyngh. Doug Rowbotham yn Is-Gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf.**

   It was proposed (Cllr Angharad Jones), seconded (Cllr Richard Jones) and unanimously agreed that Cllr Doug Rowbotham would act as Vice-Chairperson for the next two years.

9. **Pennu Lwfans y Cadeirydd ac Aelodau: Chairperson's Allowance; Members' Allowance.**

   **Penderfynwyd cadw lwfans y Cadeirydd ar £200 y flwyddyn. Gall aelodau hawlio £150 y flwyddyn ar gyfer treuliau a gall cynghorwyr â chyfrifoldebau penodol dderbyn swm ychwanegol. Cytunwyd i drafod ymhellach yn ystod cyfarfod dyfodol.**

   It was agreed not to adjust the present Chairman's Allowance of £200 per year. Individual members can claim £150 per year to cover expenses. Cllrs with specific responsibilities are entitled to further payments. It was agreed to discuss further at a future meeting.

10. **RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNGOR CYMUNED – COMMUNITY COUNCIL'S STANDING ORDERS** Standing Orders – Rheolau Sefydlog | Cyngor Cymuned – Ystrad Fflur – Community Council (ccystradfflurcc.org.uk)

    **Cytunwyd i glustnodi sylw pellach i'r Rheolau Sefydlog mewn cyfarfod misol y dyfodol.**

    It was agreed to assign further attention to the Standing Orders at a future meeting of the Community Council.

11. **CYNRYCHIOLYDD: Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen – REPRESENTATIVE** Hall Committee

    **Cynigiwyd (Y Cyngh. Richard Jones); Eiliwyd ( Y Cyngh. Gareth Owen) a phenderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Gyng. Mel Briant yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfodydd dyfodol Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned.**

    It was proposed (Cllr Richard Jones), Seconded (Cllr Gareth Owen) and unanimously resolved that Cllr Mel Briant would represent the Community Council at future meetings of the Pantyfedwen Hall Committee and to report back to the Community Council.

12. **Cyfarfod Chwarter Un Llais Cymru: cynrychiolydd- One Voice Wales Quarter Meetings – Representative**

    **Enwebwyd y Cyngh. Ieuan Davies i gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfodydd Chwarter Un Llais Cymru ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned. Cynhaliwyd cyfarfodydd diweddar yn rhithiol.**

    Cllr Ieuan Jones was nominated to represent the Community Council at future Quarter Meetings of One Voice Wales and to report back to the Community Council. Recent meetings have been held virtually.

13. **DIRPRWYO NEU ADNEWYDDU PWERAU SWYDDOGAETHOL I'R CLERC i WEITHREDU AR FUSNES BRYS A GYFYD RHWNG CYFARFODYDD Y CYNGOR GAN YMGYNGHORI GYDA'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**
RENEWING THE CLERK'S POWER TO ACT WHEN FACED WITH ISSUES WHICH ARISE BETWEEN MEETINGS AFTER CONSULTATION WITH THE CHAIRPERSON AND VICE-CHAIRPERSON
**Cytunwyd parhau â'r trefniant.** It was agreed to continue with this arrangement.
14. **ARDAL CHWARAE NEUADD PANTYFEDWEN – RHEOLAETH**
**PANT Y FEDWEN PLAY AREA – MANAGEMENT**
**Cytunodd y Cyngh. Gareth Owen i barhau â gofalaeth am y parc.**
Cllr Gareth Owen agreed to continue with the management of the park.
15. **MATERION YN CODI O'R COFNODION- MATTERS ARISING FROM THE MINUTES: Dim i'w cofnodi.** None to record.
16. **UNRHYW FATER A GODIR GAN Y CYHOEDD- MATTERS ARISING BY MEMBERS OF THE PUBLIC**
**Soniodd Clare Hughes a Mair Jones am gyflwr y grid gwartheg a oedd yn arwain i Doleboliion. Cytunodd y Cyngh. Gareth Owen i glustnodi sylw pellach i'r mater.**
Clare Hughes and Mair Jones drew attention to the condition of the cattle grid leading to Dolebolion. Cllr Gareth Owen agreed to assign further attention to the matter.
17. **UNRHYW FATER ARALL SY'N BERTHNASOL- ANY OTHER RELEVANT BUSINESS**
**Diolchodd y Cadeirydd i'r gyn-gynghorwyr Clare Hughes, John Jones, Mair Jones a William Lewis am eu gwaith ymroddgar yn ymestyn ystod eang o flynyddoedd.**
**Estynnwyd croeso arbennig i'r aelodau newydd etholedig sef y Cyngh. Roland Bago, Mel Briant, Ieuan Davies; Richard Jones ac Elgan Williams.**
**Diolchwyd i'r Cyngh. Gareth Owen am ei waith fel Cadeirydd yn ystod cyfnod anodd.**
**Datganwyd llongyfachion i'r Cyngh. Ifan Lloyd-Davies ar gael ei ail-ethol fel Cynghorydd Sirol dros Ward Ysrad Fflur ac yn ogystal, Ward Tregaron. Hefyd am ei ethol fel Cadeirydd y Cyngor Sir am y flwyddyn fwrdeistrefol 2022-23.**
The Chair thanked recently retired cllrs viz Clare Hughes, John Jones, Mair Jones and William Lewis for their commitment to the community, spanning many years.
A warm welcome was extended to the new members viz Cllrs Roland Bago, Mel Briant, Ieuan Davies, Richard Jones and Elgan Williams.
Cllr Gareth Owen was thanked for his work as Chairman during a challenging time.
Congratulations were conveyed to County Cllr Ifan Lloyd-Davies on his re-election as County Cllr for the Ward of Ystrad Fflur and also, for the Tregaron Ward. Moreover, on his nomination as Chairman of Ceredigion County Council for the 2022-23 Municipal Year .
**Daeth y Cyfarfod i ben am 7.50pm.**
The meeting was adjourned at 7.50pm.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

(ARWYDDWYD/ SIGNED)

**COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL RITHIOL**
**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**NOS IAU YR 27/05/2021**
**AM 7PM**

1. **CROESO'R CADEIRYDD**
   Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen.

2. **YN BRESENNOL**
   Y Cyngh. Gareth Owen (Cadeirydd); Y Gyngh. Angharad Jones (Is-Gadeirydd); Y Gyngh. Clare Hughes; Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies; Eleri Thomas (Clerc) Laura Jones.

3. **YMDDIHEURIADAU**
   Ymddiheurodd y Cyngh. John Jones, y Gyngh. Mair Jones (heb yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd); y Cyngh. Non Jones; y Cyngh. Wil Lewis (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd) a'r Cyngh. Doug Rowbotham am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **DATGAN DIDDORDEB: Dim.**

5. **DARLLEN COFNODION MEDI 2020**
   Darllenwyd y cofnodion. **CYNIGIWYD, EILIWYD** a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol eu bod yn gofnod cywir.

6. **ARWYDDO COFNODION MEDI 2020**
   Arwyddir pan fydd amgylchiadau'n caniatau.

7. **DIRPRWYO NEU ADNEWYDDU PWERAU SWYDDOGAETHOL i'R CLERC i WEITHREDU AR FUSNES BRYS A GYFYD RHWNG CYFARFODYDD Y CYNGOR GAN YMGYNGHORI GYDA'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**.
   **PENDERFYNWYD** parhau â'r trefniant.

8. **LLENWI'R SEDD WAG** (yn dilyn ymddiswyddiad y Gyngh. Laura Jones)
   Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Sir Ceredigion yn son na fydd angen gwneud trefniadau i lenwi'r sedd wag cyn Etholiad Cynghorau Tref a Chymuned Mai 2022.

9. **ETHOL IS-GADEIRYDD (yn dilyn ymddiswyddiad y Gyngh. Laura Jones)**
   **Cynigiwyd** (y Gyngh. Clare Hughes), **Eiliwyd** (y Cyngh Gareth Owen) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol i ethol y Gyngh. Angharad Jones fel Is-Gadeirydd y Cyngor Cymuned.

10. **Rheoli cyfrif Facebook y Cyngor Cymuned:** cytunwyd y byddai Laura Jones yn parhau i reoli'r cyfrif Facebook ar ran y Cyngor Cymuned.

11. **Safle ar y We Word Press: wwwccystradfflurcc.org.uk**

Y mae cyfrif Word Press newydd wedi'i sefydlu. Cytunwyd y byddai'r Clerc ET yn anfon y manylion at sylw Laura Jones a gofyn iddi drosglwyddo perchnogaeth a rheolaeth y safle wwwccystradfflurcc.org.uk i ddwylo'r Cyngor Cymuned.

**PARTH – GO DADDY**: y mae Cyfrif Go Daddy newydd yn enw'r Cyngor Cymuned wedi ei sefydlu. i anfon cyfeiriad ebost a'r cyfrifnair at sylw Laura Jones i'w galluogi i drosglwyddo enw'r parth i ddwylo'r Cyngor Cymuned.

Cytunwyd y byddai cyfrif PayPal yn cael ei osod mewn lle yn enw'r Cyngor Cymuned i alluogi'r taliadau.

Ystyriwyd bancio arlein yn ystod y dyfodol.

12. **Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Bwyllgor Neuadd Pantyfedwen:** etholwyd y Gyngh. Clare Hughes.

13. **Cyfarfod Chwarter Un Llais Cymru:** i benderfynu'n ystod cyfarfod misol Mehefin y Cyngor Cymuned.

14. **PENNU LWFANS Y CADEIRYDD**: **PENDERFYNWYD** parhau â'r drefn bresennol sef £200. £100 wedi'i wario i ddosbarthu'r holiaduron yn ymwneud â'r Eglwys Dewi Sant.

15. **MATERION YN CODI O'R COFNODION 2020: Dim.**

16. **UNRHYW FATER ARALL SY'N BERTHNASOL**
    Ni godwyd unrhyw fater.
    Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm.

## ANNUAL GENERAL MEETING
## YSTRAD FFLUR COMMUNITY COUNCIL
## THURSDAY 27 MAY 2021 AT 7PM
## VIRTUAL MEETING

1. **CHAIRPERSON'S WELCOME**
   The Chairperson Cllr Gareth Owen extended a warm welcome to all present.
2. **PRESENT**
   Cllr. Gareth Owen (Chair); Cllr. Angharad Jones (Vice-Chairperson); Cllr. Clare Hughes; Cllr. Gareth Owen; Cllr. Alun Price-Jones; County Cllr Ifan Lloyd-Davies; Eleri Thomas (Clerk)
   Laura Jones.

3. **APOLOGIES FOR ABSENCE**
   Cllr John Jones, Cllr. Mair Jones (does not make use of the internet); Cllr. Non Jones; Cllr. Wil Lewis (does not make use of the internet) and Cllr. Doug Rowbotham apologised for their inability to attend the meeting.

4. **DECLARATION OF INTEREST (none declared)**

5. **READING OF THE MINUTES OF THE AGM OF SEPTEMBER 2020**

The Minutes were read and were unanimously agreed to be a correct record.

6. **SIGNING OF THE MINUTES OF THE AGM OF SEPTEMBER 2020**
The Minutes were signed by the Chairperson when circumstances permit.

7. **RENEWING THE CLERK'S POWER TO ACT WHEN FACED WITH ISSUES WHICH ARISE BETWEEN MEETINGS AFTER CONSULTATION WITH THE CHAIRPERSON AND VICE-CHAIRPERSON**
**RESOLVED** to continue with the arrangement.

8. **FILLING THE VACANT SEAT: (following the resignation of Cllr Laura Jones)**
Information was received from Ceredigion County Council stating that it will not be necessary to fill the vacant seat before the Town and Community Council Election scheduled for May 2022.

9. **ELECTION OF VICE-CHAIR (following the resignation of Cllr Laura Jones)**
It was **PROPOSED** (Cllr Clare Hughes); **Seconded** (Cllr Gareth Owen) and unanimously **RESOLVED** to elect Cllr Angharad Jones as Vice-Chair of the Community Council.

10. **Management: Facebook Page of the Community Council:** it was agreed that Laura Jones would continue to manage the Facebook page on behalf of the Community Council.

11. **Management: WordPress Website of the Community Council: www.ccystradfflurcc.org.uk**
Set up WordPress account in the name of the Community Council: has been done. It was agreed for the clerk ET to forward the information to Laura Jones to enable her to transfer ownership and management of the website www.ccystradfflurcc.org.uk to the Community Council.

**DOMAIN**
**Go Daddy Account has been set** with community council credentials. To forward email address and password to Laura Jones to enable her to forward the domain to the Community Council.

**It was AGREED to set up a PayPal account in the name of the Community Council to enable direct payments.**

**Online banking was considered in the future.**

12. **Pantyfedwen Hall Committee** Representative: Cllr Clare Hughes had previously been elected to represent the Community Council.

13. **One Voice Wales Quarter Meetings: representative: to decide at the next monthly meeting.**

14. **CHAIRPERSON'S ALLOWANCE:** it was resolved to continue with the present arrangement of £200.  £100 had been spent to meet the cost of the distribution of the Questionnare associated with the former St David's Church Building.

15. **MATTERS ARISING FROM THE MINUTES: None.**

16. **ANY MATTER RAISED BY MEMBERS OF THE PUBLIC: None**

**The meeting was adjourned at 7.30pm.**

------------------------------------------------- --------------------------------------- (signed / date)